# Datganiad yn dod â Pharth Gwarchod (Ffliw Adar) a Parth Gwyliadwriaeth ger Aberdaugleddau, Sir Benfro (AIV2025/75) i ben sydd wedi'i ganoli ar gyfeirnod grid SM8949908967.

Mae'r Prif Swyddog Milfeddygol wedi cadarnhau bod ffliw adar pathogenig iawn yn bresennol mewn ardal yng Nghymru.

Yn unol ag erthyglau 28(2) a 29(1) a (2) o Orchymyn Ffliw Adar a Ffliw sy'n Deillio o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) (Rhif 2) 2006[1] ("y Gorchymyn"), ac ar ôl ystyried y meini prawf a nodir yn erthygl 29(5), datganodd Gweinidogion Cymru Barth Gwarchod a Pharth Gwyliadwriaeth sydd wedi'u canoli ar gyfeirnod grid SM8949908967 am 20:00 ar 31 Hydref 2026.

Mae o leiaf 30 diwrnod wedi mynd heibio ers cwblhau'r mesurau glanhau a diheintio rhagarweiniol y cyfeirir atynt yn Rhan 2 o Atodlen 3 i'r Gorchymyn ar bob safle wedi'i heintio yn y parth hwnnw ac mae ymchwiliad milfeddygol wedi'i gwblhau ar bob safle yn y parth y ceir dofednod neu adar caeth eraill ynddynt.

Yn unol ag erthyglau 4(1) a 36(1), (2) a (3) o'r Gorchymyn, mae Gweinidogion Cymru drwy hyn yn dod â'r Parth Gwarchod a Parth Gwyliadwriaeth hwnnw i ben

Mae gorffen y Parth Gwarchod hwn a Parth Gwyliadwriaeth yn dod i rym o 15:00 ar 30 Ionawr 2026, gan ddod â'r mesurau sydd wedi'u gosod yn y Parth Gwarchod 3 cilometr a'r Parth Gwyliadwriaeth 10 cilometr i ben

Mae'r holl dermau yn y Datganiad hwn wedi'u diffinio yn y Gorchymyn.

Llofnodwyd: Richard Irvine, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru

Dyddiedig: am 12:27 ar 30 Ionawr 2026.

O dan awdurdod y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru.

Mae copïau o'r Datganiad hwn a'r Gorchymyn ar gael ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru a chan Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

[1] O.S. 2006/2927 (Cy. 262) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2025/1357 (Cy.222).